Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ffurflen Hawlio Grant

# Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau

# Canllaw Sut i Lenwi

© Hawlfraint y Goron 2023 ISBN: 978-1-80535-831-2

Fersiwn 0.1

## Cynnwys


**Ffurflen Hawlio Grant – Canllaw Sut i Lenwi ........................................................ 3**

Neges Bwysig........................................................................................................ 3

**Cyfrif RPW Ar-lein.................................................................................................. 4**

**Gweld y Ffurflen Hawlio Grant ................................................................................ 5**

**Tudalen Cyflwyniad ................................................................................................. 7**

**Dewiswch Gontractau.............................................................................................. 8**

**Gweithgareddau sydd ar gael ichi hawlio arnyn nhw ..........................................10**

**Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Hawliad .......................................12**

**Cynnydd prosiect...................................................................................................13**

**Cyflwyno’r Hawliad .................................................................................................14**

Gwallau a Gwybodaeth ........................................................................................14

**Datganiadau ac Ymrwymiadau.............................................................................16**

**Cyflwyno.................................................................................................................17**

**Manylion Cysylltu ..................................................................................................18**

Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.......................18

# Ffurflen Hawlio Grant – Canllaw Sut i Lenwi

## Neges Bwysig

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i lenwi Ffurflen Hawlio Grant a'r dystiolaeth ddogfennol sy'n ofynnol i gefnogi eich cais.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Ar agor o 8.30am tan 5.00pm Llun - Iau ac o 8.30am tan 4.30pm bob dydd Gwener).


# Cyfrif RPW Ar-lein


I weld y Ffurflen Hawlio Grant, rhaid ichi fynd trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.  Ar ôl ichi logio i mewn, fe welwch dudalen ‘Hafan’ eich cyfrif RPW ar-lein.




# Gweld y Ffurflen Hawlio Grant

I weld y Ffurflen Hawlio Grant, cliciwch ar y ddolen ar gornel chwith isaf eich sgrin Hafan (gweler isod). Neu cliciwch ar y tab 'Ffurflenni' ar y bar dewis a chliciwch ar y ddolen Ffurflen Hawlio Grant yn y panel glas ar ochr dde'r sgrin.




Ar ôl pwyso’r botwm i ddechrau llenwi’ch Ffurflen Hawlio Grant, fe welwch y dudalen ganlynol. Gofalwch fod y manylion arni’n gywir ac os nad ydyn nhw, cywirwch nhw ar eich cyfrif RPW Ar-lein cyn mynd ymhellach.  Os ydych yn barod i fynd yn eich blaen, cliciwch ar y botwm ‘Dechrau’.




Ar ôl clicio’r botwm ‘Dechrau’, fe welwch y dudalen Cyflwyniad i’r Ffurflen Hawlio Grant.


# Tudalen Cyflwyniad

Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig ichi am y Ffurflen Hawlio Grant. Gofalwch eich bod wedi'u darllen yn drylwyr cyn ichi ddechrau. Gallwch weld y Canllaw Sut i Lenwi Ffurflen Hawlio Grant ar wefan Llywodraeth Cymru (bydd hyn yn agor tab newydd ar eich Porwr Rhyngrwyd) drwy glicio ar y ddolen 'Sut i Lenwi'.




# Dewiswch Gontractau


Dim ond os oes gennych fwy nag un contract y gallwch hawlio drwyddynt y byddwch yn gweld y dudalen hon.  Gallan nhw fod yn gontractau ar wahân ar gyfer yr un cynllun neu gontractau ar gyfer cynlluniau gwahanol.  Dewiswch pa gontract(au) yr hoffech hawlio drwyddynt drwy glicio ar y blwch perthnasol.





Er enghraifft, mae yna dri gontract ar y Ffurflen Hawlio Grant isod y gallwch hawlio drwyddynt.




Os dewiswch y tri, byddant i gyd yn ymddangos ar yr ochr chwith.



Os dewiswch un contract yn unig, yna dim ond un cynllun fydd yn ymddangos ar ochor chwith y dudalen.




# Gweithgareddau sydd ar gael ichi hawlio arnyn nhw

Mae’r sgrin hon yn dangos y gweithgareddau sydd ar gael ichi Hawlio Grant arnyn nhw ar hyn o bryd.

Bydd y sgrin yn dangos y contract rydych yn hawlio taliad trwyddo.

Bydd clicio ar y blwch glas ‘Help’ ar frig y dudalen yn eich cyfeirio at brif dudalen Ffermio a Chefn Gwlad Cymru.  Gallwch ddewis y cynllun sy’n berthnasol a chael mynediad at y canllawiau Sut i Lenwi unrhyw bryd.

Ar gyfer rhai Ffurflenni Hawlio Grant, bydd blwch glas arall yn ymddangos o dan y blwch Help fydd yn rhoi rhagor o fanylion y cynllun penodol rydych wedi dewis hawlio'i daliad.





Rhaid i’r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar y sgrin hon fod yn gywir.  Ticiwch y blwch sydd yn ymyl y gweithgaredd yr hoffech hawlio amdano.  Nodwch y swm rydych yn ei hawlio, a'r dyddiad y cwblhawyd y gweithgaredd.


**Sylwer:** mai dim ond unwaith y cewch chi hawlio am weithgaredd, h.y. chewch chi ddim hawlio am ran o weithgaredd yn awr, yna cyflwyno hawliad arall yn ddiweddarach am weddill y gwaith.

Dim ond pan fydd yr holl waith o dan y gweithgaredd hwnnw wedi'i gwblhau y cewch chi hawlio am weithgaredd.

Mae’n rhaid ichi hefyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi eich hawliad fel a ddisgrifir yn yr Adran ganlynol – Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Cais.



Os bydd y manylion y byddwch yn eu rhoi yn anghywir, fe welwch neges yn dangos eich bod wedi gwneud camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi gywiro'r holl gamgymeriadau.



## Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Hawliad

**Rhaid ichi gyflwyno'r canlynol gyda'ch hawliad:**

- Tystiolaeth bod y gwariant wedi cael ei wneud ar gyfer pob eitem rydych wedi hawlio amdani.
- Anfonebau ar gyfer pob eitem rydych wedi hawlio amdani.
- **Ffotograff â geotag o'r eitem/eitemau ar eich fferm.**

**Os na roddir tystiolaeth bydd yr hawliad yn cael ei wrthod.**

Rhaid i anfonebau ddangos y gair 'anfoneb' ar y ddogfen a chynnwys y canlynol:

- rhif adnabod unigryw
- enw a chyfeiriad eich cwmni a manylion cyswllt
- enw a chyfeiriad y cwmni anfonebu
- disgrifiad clir o'r hyn yr ydych yn talu amdano
- dyddiad darparu'r nwyddau neu'r gwasanaeth (dyddiad cyflenwi)
- dyddiad yr anfoneb
- y swm/symiau a godir am bob eitem
- y TAW, os yw'n gymwys
- y cyfanswm sy'n ddyledus.

Dylid rhoi tystiolaeth o dalu drwy gyfriflenni banc.  Os nad yw gwerth y trafodiad yn cyd-fynd â gwerth yr anfoneb (er enghraifft, os ydych wedi prynu eitemau nad ydynt yn rhan o'r prosiect o'r un cyflenwr, bydd angen dadansoddiad o'r taliad cyfan gydag anfonebau atodol.

Os ydych yn gwneud taliadau â siec, yna bydd angen sganio neu dynnu llun o'r siec wedi'i hysgrifennu, cyn ei chyflwyno i'r cyflenwr, yn ogystal â'r gyfriflen banc.


Ffotograff â geotag sy'n cynnwys gwybodaeth am y lleoliad o fewn data'r ffotograff.  Bydd y rhan fwyaf o ffonau symudol â chysylltiad â'r rhyngrwyd yn cofnodi'r cyfesurynnau GPS yn awtomatig.  Maent hefyd yn cofnodi'r dyddiad a'r amser y tynnwyd y ffotograff.

Bydd canllawiau manwl ar y ffotograffau â geotag sydd eu hangen a sut i gyflwyno ffotograffau â geotag, sy'n benodol i'r Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau, ar gael ar y wefan yn ystod y cam hawlio.


Cewch gyflwyno'r anfonebau a thystiolaeth eu bod wedi cael eu talu drwy eu sganio a'u hanfon drwy 'Fy negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein.

# Cynnydd prosiect

Rhaid ichi rhoi manylion am y cynnydd a wnaed hyd yma tuag at fodloni dangosyddion a chanlyniadau'r prosiect.




Os nad y cais hwn yw eich hawliad terfynol mae angen i chi chi gyflwyno diweddariad ar sut mae eich prosiect yn dod yn ei flaen.



# Cyflwyno’r Hawliad


## Gwallau a Gwybodaeth

Mae’r adran hon yn rhestru’r Negeseuon ‘Gwallau a ‘Gwybodaeth’ ar eich Ffurflen Hawlio Grant.

**Rhaid** cywiro unrhyw wallau cyn cyflwyno’ch Ffurflen Hawlio Grant.


Diben y negeseuon Gwybodaeth yw’ch atgoffa am unrhyw gamau y gallai fod gofyn ichi eu cymryd, ond nid ydynt yn eich rhwystro rhag cyflwyno’ch hawliad.

I weld negeseuon Gwallau a Gwybodaeth ar gyfer adran benodol, cliciwch ar enw’r adran ar ochr chwith y sgrin neu cliciwch ar ddolen Enw'r Adran yn y blwch Gwallau a Gwybodaeth.





Ar ôl ichi gywiro'r gwallau, rydych nawr yn barod i gyflwyno'ch Ffurflen Hawlio Grant.

Mae’r sgrin gyflwyno’n rhestru’r holl weithgareddau rydych wedi’u dewis i hawlio arnyn nhw, ac mae’n dangos gwerth yr hawliad hefyd.



Os ydych wedi dewis hawlio o dan fwy nag un cynllun/contract, bydd y Crynodeb yn dangos yr holl weithgareddau rydych yn hawlio arnyn nhw o dan bob cynllun.



furflen Hawlio Grant

A00

Help

- Cyflwyniad
- Dewiswch Gontractau
- Grantiau Bach - Amgylchedd (EN000258 - test)
- Grantiau Bach - Amgylchedd (EN000091 - Test for Non Rep MB)
- Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau (NM000006 / 7719662)
- Cynnydd prosiect
- Cyflwyno
- Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb
- Datganiadau ac Ymrwymiadau
- Cyflwyno

Mae'r canlynol yn crynhoi'r Hawliad Gwaith Cyfalaf rydych wedi'i lenwi.

## Grantiau Bach - Amgylchedd (EN000091 - Test for Non Rep MB)

### D?r 2022

| Math o Waith Cyfalaf | Rhif y Gwaith Cyfalaf | Disgrifiad | Dyddiad Cwblhau'r Gweithgaredd? | Nifer a Hawlir | Gwerth (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif | E611 | Coed a llwyni - trawsblannu | 23/03/2023 | 5 Eitemau | 4.00 |
| Ategol | E608 | Cysgod coed | 21/03/2023 | 5 Eitemau | 6.20 |
| Ategol | E593 | Ffens postyn a rheilen | 17/03/2023 | 5.00 m | 52.00 |
| | | | | Cyfanswm gwerth yr hawliad | 62.20 |

## Grantiau Bach - Amgylchedd (EN000258 - test)

### Creu Gwrychoedd 2023

| Math o Waith Cyfalaf | Rhif y Gwaith Cyfalaf | Disgrifiad | Dyddiad Cwblhau'r Gweithgaredd? | Nifer a Hawlir | Gwerth (£) |
|---|---|---|---|---|---|
| Prif | E900 | Plannu Perth/Gwrych Newydd | 21/03/2023 | 28.00 m | 126.00 |
| Ategol | E931 | Ffens postyn a weiren ƒ netin | 01/03/2023 | 28.00 m | 155.68 |
| | | | | Cyfanswm gwerth yr hawliad | 281.68 |

## Cynllun Buddsoddi mewn Rheoli Maethynnau (NM000006 / 7719662)

### 2022

| Rhif y Gwaith Cyfalaf | Disgrifiad | Dyddiad Cwblhau'r Gweithgaredd? | Nifer a Hawlir | Gwerth (£) | |
|---|---|---|---|---|---|
| NM2 | Storfeydd slyri a phyllau derbyn cysylltiedig | 22/03/2023 | £ 22,400.00 | 22,400.00 | |
| | | | | Cyfanswm gwerth yr hawliad | 22,400.00 |


# Datganiadau ac Ymrwymiadau

Rhaid darllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â nhw. Sgroliwch i lawr y dudalen i ddarllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau i gyd. Pan fyddwch yn fodlon eich bod wedi'u darllen a'u deall ac wedi cydymffurfio â nhw, ticiwch y blwch ar y gwaelod i fynd yn eich blaen.

Os na fyddwch wedi ticio'r blwch i gadarnhau'ch bod wedi darllen a deall y Datganiadau ac Ymrwymiadau ac wedi cymdymffurfio â nhw, fe welwch neges camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi dicio'r blwch.


Bydd angen ichi dicio mwy nag un blwch wrth hawlio rai grantiau. Gofalwch fod yr holl flychau wedi'u ticio.

Cliciwch y botwm **Nesaf** os ydych am fynd yn eich blaen.



# Cyflwyno

Mae’ch Hawliad Grant yn awr yn barod i’w gyflwyno.  Os ydych yn barod i’w gyflwyno, pwyswch y botwm ‘Cyflwyno’.




Gofalwch eich bod yn anfon eich Ffurflen Hawlio Grant erbyn y dyddiad cau sydd yn y contract.

Os na fyddwch wedi'i anfon erbyn y dyddiad cau, chewch chi ddim mo'ch talu.  Ar ôl anfon yr hawliad, **rhaid** cyflwyno'r holl ddogfennau ategol cymwys.

Os na fyddwch wedi cyflwyno'r dogfennau ategol erbyn y dyddiad cau, chewch chi ddim mo'ch talu.

# Manylion Cysylltu

## Ymholiadau gan Ffermwyr – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Yn y lle cyntaf, dylai cwsmeriaid sydd am gysylltu â ni ffonio neu e-bostio’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein i anfon cwestiwn at y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

Ffôn: 0300 062 5004

Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost:
Taliadau Gwledig Cymru,
Blwch Post 251,
Caernarfon,
LL55 9DA